LC320

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Monitro BSE (Cymru) 2001**

**Y cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi erthygl 1.2 o Benderfyniad y Comisiwn 2000/746/EC a Phenderfyniad y Comisiwn 2001/233/EC ar waith yng Nghymru. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod-wladwriaethau sicrhau bod categorïau penodol o anifeiliaid buchol dros 30 mis oed yn cael eu harchwilio yn unol â gofynion rhagnodedig ar gyfer monitro BSE.

Ceir nodyn manwl yn y Nodyn Esboniadol.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliadau hyn.

Gwnaed darpariaethau tebyg ar gyfer Lloegr ar 1 Mai 2001 a daethant i rym ar 1 Gorffennaf 2001, (OS Rhif 1644).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad Cenedlaethol yn ffurfiol i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 11.5.

**Sylwadau Cyffredinol**

- Rheoliad 9(1) - er mwyn cyd-fynd â'r diffiniad, dylai "the" ymddangos o flaen "BSE".
- Rheoliad 9(3)(a) - yn y geiriau sy'n cael eu mewnosod nid yw'r atalnod llawn sy'n dilyn "carcase" yn briodol.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

23 Hydref 2001